WELSH SPORTS HALL OF FAME

In association with

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Tocynnau Ar Werth Nawr!

Annwyl Bawb,

Bydd Neuadd Enwogion Chwaraeon Cymru yn cynnal Cinio Gwobrwyo Blynyddol 2019 yn Stadiwm Dinas Caerdydd nos Fercher 26ain Mehefin 2019.

Hwn fydd ein 30ain Cinio, gyda llawer o enwau mwyaf chwaraeon yng Nghymru yn debyg o fynychu, ac fe ychwanegir enwau rhai 'mawrion yr oesoedd' newydd i'n Rhestr Anrhydedd.

Y gost yw £600 am ford gron i ddeg neu £60 y pen i unigolion (mae pob pris yn cynnwys ffioedd).

Dewis arall fyddai i chi gyfyngu'r nifer ar eich bwrdd i 8, a byddem ninnau'n clustnodi seren chwaraeon a'i phartner/bartner i ymuno â chi am ginio – rhowch wybod i ni os hoffech wneud hynny. Wrth nodi enwau eich gwesteion, rhowch 2 i lawr fel 'WSHoF guest'.

Os carech fynychu, a fyddech cystal â bwcio'ch tocynnau trwy ein tudalen Eventbrite. Dylid nodi y daw'r cyfnod bwcio i ben ddydd Mercher 12fed Mehefin felly, da chi, sicrhewch eich lle cyn gynted ag sy'n bosibl.

Rydym hefyd wedi trefnu cyfle i gael taith fer y tu ôl i'r llenni yn y Stadiwm – da chi, rhowch wybod i ni os hoffai rhai o'ch gwesteion fanteisio ar y cyfle hwn, a faint ohonynt hoffai wneud. Y dyddiad olaf ar gyfer ein hysbysu yw 2 wythnos cyn y digwyddiad.

Edrychwn ymlaen at eich gweld ar achlysur sydd bob amser yn un cofiadwy a difyr.

Dymuniadau gorau,

Jeff Andrews (Ysgrifennydd Mygedol) a Liz Brookes (Ymddiriedolwraig)
Neuadd Enwogion Chwaraeon Cymru

For more information contact us on info@grapevineeventmanagement.co.uk